**Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 22 Tachwedd 2005 i’w hateb ar 06 Rhagfyr 2005**

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi’i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**1. Irene James (Islwyn):** Pa gamau y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi eu cymryd i fynd i'r afael â gor-ddyledion yng Nghymru. OAQ1051(FM)

**2. Janet Davies (Gorllewin De Cymru):** Pa drafodaethau y mae’r Prif Weinidog wedi eu cynnal yn ddiweddar gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU yngl•n â Llywyddiaeth y DU o’r Undeb Ewropeaidd. OAQ1072(FM)

**3. Peter Law (Blaenau Gwent):** Pa gynnydd y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud gyda Phecyn Adfywio Corus (Glyn Ebwy). OAQ1054(FM)

**4. Brynle Williams (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddatblygiad yr A55 yn y Gogledd i’r dyfodol. OAQ1068(FM)

**5. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisïau Llywodraeth y Cynulliad ym maes tai. OAQ1073(FM)

**6. Janet Ryder (Gogledd Cymru):** Pa drafodaethau y mae’r Prif Weinidog wedi eu cynnal yn ddiweddar gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU yngl•n â ‘Gwell Llywodraethu i Gymru’. OAQ1074(FM)

**7. Elin Jones (Ceredigion):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar sut mae polisïau’r llywodraeth yn cefnogi gwasanaethau gwledig yng Ngheredigion. OAQ1070(FM) **W**

**8. Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Pa drafodaethau y mae’r Prif Weinidog wedi eu cael gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU ynghylch mesurau i gael mwy o bobl i hawlio budd-daliadau yng Nghymru. OAQ1056(FM)

**9. Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd i fynd i’r afael â’r bwlch cyfoeth rhwng Cymru a gweddill y DU. OAQ1065(FM)

**10. Gwenda Thomas (Castell-nedd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau ymddygiad gwrth-gymdeithasol yng Nghymru. OAQ1067(FM)

**11. Alun Ffred Jones (Caernarfon):** Pa drafodaethau diweddar y mae’r Prif Weinidog wedi eu cynnal gyda Gweinidogion y Deyrnas Gyfunol parthed deddfwriaethau cynradd sydd yn effeithio ar Gymru. OAQ1076(FM) **W**

**12. Owen John Thomas (Canol De Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd i roi terfyn ar ddirywiad y diwydiannau gweithgynhyrchu yng Nghymru. OAQ1047 (FM)

**13. Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth):** Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd i ddenu busnesau i Gaerdydd. OAQ1046(FM)

**14. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar adeilad newydd y Cynulliad. OAQ1078(FM) **W**

**15. Carl Sargeant (Alyn a Glannau Dyfrdwy):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisïau cyfiawnder cymdeithasol yn Alyn a Glannau Dyfrdwy. OAQ1048(FM)